Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Telerau ac Amodau Grant: Y Brifysgol Agored yng Nghymru

2026/27

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cynnwys


*Cyflwyniad* .... *4*

**Cymhwyso'r ddogfen hon** .... **5**

**Cyfrifoldebau Medr** .... **6**

*Talu cyllid yn unol â'r ddeddfwriaeth* .... 6

*Trefniadau ar gyfer talu cyllid* .... 6

*Diogelu cyllid cyhoeddus* .... 6

*Gallu Archwilwyr i fynd at wybodaeth* .... 6

*Hawl i atal taliadau cyllid* .... 7

**Cyfrifoldebau'r Sefydliad tuag atom ni a'i fyfyrwyr** .... **7**

*Cyfrifoldeb y corff llywodraethu dros gydymffurfio â'r ddogfen hon* .... 7

*Stiwardiaeth briodol dros gyllid cyhoeddus* .... 7

*Strwythurau llywodraethu cadarn, atebol a thryloyw* .... 7

*Cyfansoddiad y corff llywodraethu* .... 7

*Rôl a chyfrifoldebau'r swyddog atebol* .... 8

*Absenoldeb neu ddiswyddo swyddog atebol* .... 8

*Cyfrifoldeb dros adrodd ar ddigwyddiadau arwyddocaol* .... 8

*Cyfrifoldeb y corff llywodraethu i sicrhau gwerth am arian* .... 9

*Cyfrifoldeb i ddarparu gwybodaeth gywir ac amserol i Medr* .... 9

*Cyfrifoldeb i ddarparu data i Medr ar gais* .... 10

*Archwilio data* .... 10

*Hysbysu am newidiadau i rolau uwch* .... 11

*Sicrhau darpariaeth addysg o ansawdd da* .... 11

*Monitro cwynion* .... 11

*Cydymffurfio â'r Concordat Uniondeb Ymchwil* .... 12

*Cydymffurfio â deddfwriaeth y DU sy'n berthnasol i gyllid Medr* .... 12

*Tâl cydnabyddiaeth* .... 12

*Defnydd priodol o gyllid cyhoeddus* .... 13

*Amgylchiadau lle byddai angen ad-dalu cyllid cyhoeddus* .... 13

*Gofyniad i danysgrifio i gyrff eraill* .... 14

*Rheoli'r ystâd yn ddoeth* .... 14

*Monitro gwerth y trysorlys a ddelir yn asedau'r Sefydliad* .... 14

*Gwaredu asedau y mae buddiant y trysorlys ynddynt* .... 15

*Ymrwymiadau ariannol* .... 15

*Paratoi datganiadau ariannol* .... 16

*Goruchwylio gwaith archwilio* .... 16

*Hawl mynediad Medr ar gyfer ymchwiliadau* ..... 16
**Ymgysylltu â sefydliadau a'u cefnogi, a chamau diogelu ..... 17**
*Camau diogelu* ..... 17
**Materion eraill ..... 18**
*Diwygiadau i'r ddogfen hon* ..... 18
*Dehongli datganiadau yn y ddogfen hon* ..... 18
**Llofnod y Swyddog Atebol ..... 19**
**Llofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethu ..... 19**
**Atodiad A: Geirfa ..... 20**

## Cyflwyniad

1. Mae’r ddogfen hon yn nodi telerau ac amodau y Comisiwn Addysg Drydyddol (Medr), sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru at ddibenion darparu addysg a chynnal ymchwil, a darparu cyfleusterau ac ymgymryd ag unrhyw weithgareddau eraill at ddibenion addysg ac ymchwil, neu’n gysylltiedig â hynny, ar gyfer y cyfnod o 1 Awst 2026 hyd 31 Gorffennaf 2027.

2. Mae’r ddogfen hon yn cofnodi’r cytundeb rhwng y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) a/ac **enw’r Sefydliad** sy’n derbyn y cyllid hwn, fel y nodir yn y cylchlythyr Dyraniadau Cyllid blynyddol a dyraniadau cyllid eraill a wneir o dro i dro.

## Sefydliad

3. Rydym wedi ystyried nifer o egwyddorion arweiniol wrth baratoi’r ddogfen hon. Dyma’r egwyddorion:

    a. Yr angen i gynnal hyder rhanddeiliaid yn y sector addysg uwch
    b. Diogelu buddiannau’r myfyriwr;
    c. Lleihau’r baich rheoleiddiol a chael gwared ar ddyblygu;
    d. Cydnabod ymreolaeth sefydliadau;
    e. Atebolrwydd rhesymol a chymesur; a
    f. Mabwysiadu dull sy’n gyson â chyrff cyllido AU eraill y DU, lle bo hynny’n bosibl (er enghraifft, o ran gofynion ariannol ac ystyried buddiannau’r myfyriwr), fel bod yr amgylchedd rheoleiddio yng Nghymru yn cefnogi gallu sefydliadau yng Nghymru i weithredu’n gystadleuol ledled Cymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

4. Mae diffiniadau o’r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon i’w gweld yn ‘**Atodiad A: Geirfa**’.

## Cymhwyso’r ddogfen hon

5. Nid yw’r ddogfen hon yn diystyru gofynion siarter y Sefydliad, statudau (neu ddogfennau cyfwerth) na’r gyfraith yn ymwneud â statws elusennol Sefydliad, ond bwriedir iddi eu hategu a’u hatgyfnerthu. Ni fydd unrhyw beth yn y telerau ac amodau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i’r Sefydliad weithredu mewn modd a fyddai’n achosi iddo golli ei statws elusennol neu a fyddai’n anghyson â’i siarter a’i statudau.

6. Pan fyddwn yn defnyddio’r term ‘rhaid’, mae hyn yn nodi gofyniad cyfreithiol neu amod cyllid penodol dan y ddogfen hon. Rhaid i’r Sefydliad gydymffurfio â’r gofynion hyn a gallai methu gwneud hynny beri i Medr adennill cyllid a/neu roi’r gorau i’w ddarparu dan delerau’r ddogfen hon. Rydym yn defnyddio ‘dylai’ ar gyfer eitemau rydym yn eu hystyried yn arfer da sylfaenol, ond nad oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol ar eu cyfer neu lle nad ydym yn gosod amod yn gysylltiedig â chyllid dan y ddogfen hon. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried i ba raddau y mae’r Sefydliad wedi mabwysiadu’r darpariaethau ‘dylai’ (neu drefniadau amgen sydd yr un mor gadarn) wrth asesu risg Sefydliad.

7. O bryd i’w gilydd, efallai y byddwn, mewn canllawiau dilynol, yn atodi gofynion gorfodol ychwanegol i amodau’r cyllid, ar ôl cynnal ymgynghoriad priodol â’r sector.

8. Daw’r ddogfen hon i rym o 1 Awst 2026 ac mae’n cwmpasu’r cyfnod o 1 Awst 2026 hyd 31 Gorffennaf 2027.

## Cyfrifoldebau Medr

*Talu cyllid yn unol â'r ddeddfwriaeth*

9. Gwneir taliadau i'r Sefydliad gan Medr i gefnogi gweithgareddau a bennir yn adran 65(2) Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

10. Bydd taliadau'n ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf 1992, yr amodau a nodir yn y ddogfen hon, a'r telerau ac amodau y gall Medr eu rhagnodi o bryd i'w gilydd yn unol â Deddf 1992, ac ar ôl cynnal yr ymgynghoriad sy'n ofynnol dan adran 66(1) y Ddeddf. Yn unol ag adran 65(3) Deddf 1992, telir cyllid yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau y gallai Medr eu gosod, gan gynnwys y rhai a nodir yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, yn unol ag adran 65(4) Deddf 1992, ni fydd y telerau ac amodau hyn yn berthnasol i ddefnydd y Sefydliad o unrhyw gyllid nad yw wedi'i ddarparu gan Medr.

11. Yn unol ag adran 66(2) Deddf 1992, nid yw Medr yn dymuno atal y Sefydliad rhag cynnal na datblygu ei gyllid o ffynonellau ar wahân i Medr.

*Trefniadau ar gyfer talu cyllid*

12. Bydd Medr yn gwneud taliadau o'r holl gyllid addysgu a chyllid ymchwil i'r Sefydliad yn erbyn proffil o daliadau. Cyfathrebwyd y proffil hwn i'r Is-ganghellor/Pennaeth a'r Cyfarwyddwr Cyllid ym mis Ebrill 2026.

13. Caiff cyllid ei ddarparu mewn dau gam: bydd 60% yn cael ei anfon at y Sefydliad ym mis Awst 2026, a bydd y Sefydliad yn cael y 40% sy'n weddill ym mis Ebrill 2027.

*Diogelu cyllid cyhoeddus*

14. Mae Prif Weithredwr Medr wedi'i benodi'n Swyddog Cyfrifyddu. Fel y cyfryw, mae'n gyfrifol ac yn atebol i Lywodraeth Cymru am sicrhau bod y cyllid a geir gan y Gweinidog Addysg (neu ei holynydd) yn cael ei ddefnyddio at y dibenion y cafodd ei roi ar eu cyfer ac mewn ffyrdd sy'n cydymffurfio â'r amodau cysylltiedig. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo gwerth da am arian trwy grantiau a delir i'r Sefydliad a chanllawiau cysylltiedig.

15. Mae'r holl gyllid a ddarperir gan Medr ar gael yn amodol ar ddefnyddio'r cyllid hwnnw.

16. Rhaid i'r Prif Weithredwr fodloni ei hun fod gan gorff llywodraethu (neu gorff cyfwerth) y Sefydliad drefniadau priodol ar gyfer rheolaeth fewnol (gan gynnwys rheoli ariannol, rheoli risg a chyfrifyddu), a bod cyllid Medr yn cael ei ddefnyddio i'r dibenion y cafodd ei roi ar eu cyfer.

*Gallu Archwilwyr i fynd at wybodaeth*

17. Archwilydd Cyffredinol Cymru, sef pennaeth Archwilio Cymru, yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a Medr. Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawl i archwilio cyfrifon unrhyw sefydliad sy'n cael grant gan Medr neu gyllid gan Lywodraeth Cymru ac i gynnal ymchwiliadau gwerth am arian.

*Hawl i atal taliadau cyllid*

18. Yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, gallai Prif Weithredwr Medr atal taliadau grant, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol a naill ai'n barhaol neu dros dro, os yw o'r farn ei bod hi'n briodol ac yn rhesymol gwneud hynny er mwyn diogelu cyllid cyhoeddus.

19. Yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, bydd Prif Weithredwr Medr yn rhoi gwybod i gorff llywodraethu'r Sefydliad (neu gorff cyfwerth) ac/neu ei bwyllgor archwilio os oes ganddo bryderon difrifol am faterion ariannol, system rheolaeth fewnol neu reoli risg y sefydliad.

## Cyfrifoldebau'r Sefydliad tuag atom ni a'i fyfyrwyr

*Cyfrifoldeb y corff llywodraethu dros gydymffurfio â'r ddogfen hon*

20. Corff llywodraethu'r Sefydliad sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Sefydliad yn cydymffurfio â'r Telerau ac Amodau Cyllid a chanllawiau cysylltiedig.

*Stiwardiaeth briodol dros gyllid cyhoeddus*

21. Mae corff llywodraethu'r Sefydliad yn gyfrifol am sicrhau mai dim ond yn unol â Deddf 1992, y telerau hyn ac unrhyw amodau eraill y gall Medr eu rhagnodi o bryd i'w gilydd, y gellir defnyddio cyllid gan Medr.

22. Rhaid i'r corff llywodraethu arfer ei ddoethineb yn rhesymol wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus ac ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol ar atebolrwydd neu briodoldeb sy'n cael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd gan Medr, Archwilio Cymru neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru.

*Strwythurau llywodraethu cadarn, atebol a thryloyw*

23. Rhaid i'r Sefydliad fod â strwythurau llywodraethu cadarn ar waith i'w galluogi i nodi a rheoli gwrthdaro buddiannau a digwyddiadau chwythu'r chwiban yn effeithiol. Dylid rhoi gwybod i Medr ar unwaith am unrhyw achosion lle nad yw gwrthdaro a digwyddiadau chwythu'r chwiban tebyg wedi'u rheoli, a lle mae hyn wedi arwain at fethiant. Rhaid i'r wybodaeth hon fod mewn fformat sy'n hawdd i randdeiliaid fynd ato, gan gynnwys Medr. Gweler paragraff 41 am ragor o wybodaeth.

24. Dylid tynnu sylw Cadeirydd y corff llywodraethu at faterion yn ymwneud ag annibyniaeth neu wrthdaro.

25. Mae Medr yn disgwyl i'r Sefydliad lofnodi a gweithio tuag at gyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn Siarter Llywodraethu Prifysgolion yng Nghymru.

*Cyfansoddiad y corff llywodraethu*

26. Rhaid i'r corff llywodraethu ystyried amrywiaeth ei gyfansoddiad, yn enwedig o ran nodweddion gwarchodedig. Ym mhob cam o'r ymarfer recriwtio ar gyfer aelodau newydd, dylid bod yn ofalus i beidio â chymysgu gallu ymgeisydd â'u profiad. Dylai ymdrechion recriwtio ar gyfer aelodaeth corff llywodraethu fod yn rhagweithiol a

thargedu grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol. Nid ydym yn ystyried ei bod yn ddigonol hysbysebu swydd yn agored heb gymryd camau rhagweithiol i ddod â'r hysbyseb at sylw grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol.

27. Rhaid i'r swyddog atebol roi gwybod i Brif Weithredwr Medr os na ddefnyddiwyd ymgynghoriaeth chwilio allanol na hysbysebu agored wrth benodi aelod o'r corff llywodraethu. Nid yw defnyddio ymgynghoriaeth chwilio allanol neu hysbysebu agored yn amod ar gyfer grant; fodd bynnag, rydym yn eu hystyried yn arfer da.

28. Bydd Medr yn ystyried cyfansoddiad y corff llywodraethu ac adroddiad y Sefydliad ar ei bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei broses Adolygiad Risg Sefydliad.

*Rôl a chyfrifoldebau'r swyddog atebol*

29. Pennaeth Sefydliad sy'n bennaf gyfrifol am arwain materion academaidd a rheolaeth weithredol y Sefydliad.

30. Rhaid i'r corff llywodraethu enwi unigolyn (pennaeth y Sefydliad, fel arfer, ond nid o reidrwydd) yn 'swyddog atebol' i gynorthwyo a galluogi'r corff llywodraethu i gyflawni ei gyfrifoldebau wrth adrodd i Medr.

31. Efallai y bydd yn ofynnol i'r swyddog atebol ymddangos gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru, ochr yn ochr â Phrif Weithredwr Medr, ar faterion yn ymwneud â grantiau i'r Sefydliad.

32. Rhaid i'r swyddog atebol roi gwybod i'r corff llywodraethu ar unwaith os ymddengys i'r swyddog atebol, ar unrhyw adeg, fod unrhyw gamau neu bolisi sy'n cael eu hystyried gan y corff llywodraethu yn anghydnaws â thelerau'r ddogfen hon. Os bydd y corff llywodraethu'n penderfynu bwrw ymlaen serch hynny, rhaid i'r swyddog atebol roi gwybod i Brif Weithredwr Medr yn ysgrifenedig ar unwaith.

*Absenoldeb neu ddiswyddo swyddog atebol*

33. Os yw Prif Weithredwr Medr o'r farn bod tystiolaeth o fethiant difrifol yn gysylltiedig â goruchwylio a rheoli cyllid cyhoeddus, bydd yn codi hynny, fel y bo'n briodol, â'r swyddog atebol dan sylw a/neu gadeirydd y corff llywodraethu; yn darparu'r dystiolaeth berthnasol; ac yn gofyn am ymateb ac yn ei ystyried.

*Cyfrifoldeb dros adrodd ar ddigwyddiadau arwyddocaol*

34. Rhaid i swyddog atebol y Sefydliad roi gwybod i Medr am unrhyw wendid difrifol, fel bygythiad sylweddol ac uniongyrchol i sefyllfa ariannol y Sefydliad, twyll sylweddol neu fethiant cyfrifyddu mawr a'r camau y mae Sefydliad yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendid hwn.

35. Dylai swyddog atebol y Sefydliad roi gwybod i Medr am unrhyw dwyll sydd, er nad yw'n sylweddol, yn dynodi gwendid difrifol mewn rheolaeth ariannol a'r camau y mae Sefydliad yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendid hwn.

36. Dylai swyddog atebol y Sefydliad roi gwybod i Medr am unrhyw dwyll y rhoddir

gwybod i'r Heddlu amdano, sydd wedi'i gyflawni neu a allai fod wedi'i gyflawni, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau.

37. Os bydd mater neu wendid wedi'i nodi, neu'n cael ei ymchwilio iddo gan gyllidwr neu reoleiddiwr heblaw Medr, rhaid i'r swyddog atebol roi gwybod i ni am hynny.

38. Caiff 'gwendid difrifol' ei ddiffinio'n un sydd wedi arwain, neu a allai arwain, at golled sylweddol o arian neu risg sylweddol i eiddo, gwaith, data, buddiolwyr neu enw da Sefydliad.

39. Pan fydd Sefydliadau o'r farn bod rheswm i gredu bod ansawdd y ddarpariaeth yn annigonol neu'n debygol o ddod yn annigonol, fel y nodwyd trwy eu prosesau eu hunain gan gynnwys trwy gwynion, rhaid iddynt drin hyn fel digwyddiadau hysbysadwy a rhoi gwybod i Medr cyn gynted â phosibl.

40. Rhaid i swyddog atebol y Sefydliad roi gwybod i Medr am unrhyw achosion lle nad yw gwrthdaro buddiannau a digwyddiadau chwythu'r chwiban wedi'u rheoli a lle mae hyn wedi arwain at fethiant: dylid rhoi gwybod i Medr am y rhain ar unwaith. Caiff gwybodaeth ei thrin yn gyfrinachol ac ni chaiff ei rhannu heb ofyn am ganiatâd gan y Sefydliad yn gyntaf.

41. Rhaid i swyddog atebol y Sefydliad roi gwybod i Medr am unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol yn ymwneud ag ansawdd. Caiff gwybodaeth ei thrin yn gyfrinachol ac ni chaiff ei rhannu heb ofyn am ganiatâd gan y Sefydliad yn gyntaf.

42. Rhaid i swyddog atebol y Sefydliad roi gwybod i Medr am unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol y rhoddwyd gwybod i reoleiddiwr arall amdanynt. Caiff gwybodaeth ei thrin yn gyfrinachol ac ni chaiff ei rhannu heb ofyn am ganiatâd gan y Sefydliad yn gyntaf.

43. Rhaid i swyddog atebol y Sefydliad roi gwybod i Medr am unrhyw achos o dorri neu ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth y DU.

*Cyfrifoldeb y corff llywodraethu i sicrhau gwerth am arian*

44. Mae'r corff llywodraethu yn gyfrifol am ddarparu gwerth am arian o gyllid cyhoeddus. Rhaid iddo barhau i adolygu ei drefniadau ar gyfer rheoli'r holl adnoddau sydd dan ei reolaeth, gan ystyried canllawiau arfer da sy'n cael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd gan Medr, Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru.

*Cyfrifoldeb i ddarparu gwybodaeth gywir ac amserol i Medr*

45. Rhaid i'r Sefydliad ddarparu i Medr, neu asiantau sy'n gweithredu ar ei ran, unrhyw wybodaeth sydd ei hangen ar Medr i arfer ei swyddogaethau dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

46. Rhaid i'r Sefydliad sicrhau y gall Medr fynd at ei holl lyfrau, cofnodion, gwybodaeth, systemau ac asedau. Gall Medr ei gwneud yn ofynnol i unrhyw swyddog roi unrhyw esboniad y mae'n ystyried ei fod yn angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau. Bydd llyfrau a chofnodion y Sefydliad hefyd ar gael i'w harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

47. Os caiff grant ei ordalu i'r sefydliad o ganlyniad i Medr yn defnyddio data amcangyfrifedig, mae gan Medr yr hawl i adennill unrhyw ordaliad, ynghyd â llog, yn unol â pharagraffau 76 i 80 isod.

48. Gofynnir i'r Sefydliad ddarparu data y mae wedi'i gasglu i Medr neu gyrff eraill sy'n gweithredu ar ran Medr. Ar hyn o bryd, mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn gweithredu fel asiant ar gyfer y Sefydliad a Medr wrth gasglu gwybodaeth sy'n ofynnol gan Medr a throsglwyddo'r wybodaeth honno i Medr a/neu Lywodraeth Cymru ar ran Medr. Yn aml, bydd y data hwn yn cynnwys manylion personol ar gyfer myfyrwyr a/neu staff. Er mwyn sicrhau y gall y Sefydliad a Medr gyflawni eu dyletswyddau dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) (EU 2016/649), rhaid i'r Sefydliad fodloni ei hun, wrth gasglu data, bod myfyrwyr a/neu staff yn ymwybodol bod data'n cael ei gasglu i'r dibenion hyn. Rhaid i'r Sefydliad roi gwybod i fyfyrwyr a staff y bydd eu data personol yn cael ei gyflwyno i HESA a rhaid iddo sicrhau bod hysbysiadau casglu HESA ar gael i bob testun data perthnasol. Bydd y Sefydliad yn cydweithredu â Medr, fel y bo angen yn rhesymol i sicrhau bod Medr, neu unrhyw asiantau eraill sy'n gweithredu ar ran Medr, yn gallu cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 o ran prosesu gwybodaeth sy'n cael ei gyflenwi gan y sefydliad.

*Cyfrifoldeb i ddarparu data i Medr ar gais*

49. Rhaid i'r Sefydliad ddarparu gwybodaeth ddibynadwy a chywir i Medr, HESA neu sefydliadau eraill fel sy'n ofynnol gan Medr, am y myfyrwyr sydd wedi ymrestru â'r sefydliad a'r gwerthoedd credyd sy'n gysylltiedig â'r myfyrwyr hynny, ynghyd ag unrhyw ddata arall sy'n ofynnol, boed hynny i gyfrifo cyllid neu i ddibenion adrodd a dadansoddi eraill.

50. Mae'r data a ddarperir gan y Sefydliad ac a ddefnyddir at ddibenion ariannu gan Medr yn destun gwiriadau dilysu. Mae'r diffiniadau a ddefnyddir ar y ffurflenni data wedi'u nodi yn arolygon Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch (HESES) Medr a Monitro Diwedd Blwyddyn (EYM) Ymrestriadau Addysg Uwch Medr, ynghyd â llawlyfrau cofnodion HESA.

51. Mae Medr yn cadw'r hawl i ddefnyddio ei amcangyfrifon ei hun o ymrestriadau myfyrwyr, gwerthoedd credyd cysylltiedig ac unrhyw ddata arall ar gyfer y Sefydliad os nad yw'n dychwelyd data i Medr, HESA neu sefydliadau eraill mewn pryd, neu lle ystyrir nad yw data o ansawdd digonol.

52. Rhaid i'r Sefydliad gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer casglu data addysg uwch a rhoi gwybod i Medr am unrhyw achos o dorri'r Cod. Rhaid i'r Sefydliad gadarnhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cod yn rhan o'r datganiad sicrwydd blynyddol.

*Archwilio data*

53. Gall yr holl ddata a ddefnyddir mewn cyfrifiadau cyllido fod yn destun archwilio data allanol. Gallai data arall a ddefnyddir gan Medr at ddibenion monitro neu ddadansoddi hefyd gael ei gynnwys yng nghwmpas archwiliad allanol. Yn ogystal â'r addasiadau a ddisgrifir ym mharagraffau 50 i 53 uchod ar gyfer addysgu sy'n seiliedig ar gredydau, gellir addasu'r cyllid yn sgil gwallau neu hepgoriadau a ganfuwyd yn ystod archwiliad os yw'r rhain wedi arwain at sefydliad yn cael

dyraniad cyllid uwch nag y dylai fod wedi'i gael. Os yw'r addasiad yn llai na £50,000, bydd Medr yn arfer ei ddoethineb, ar sail amgylchiadau canfyddiadau'r archwiliad, i benderfynu a ddylid cymhwyso'r addasiad ai peidio. Os yw'r addasiad yn fwy na £50,000, caiff ei gymhwyso'n llawn.

*Hysbysu am newidiadau i rolau uwch*

54. Pan fydd aelod o'r corff llywodraethu neu un o'i bwyllgorau, neu glerc i un o'r rhain, yn gadael ei swydd oherwydd anghytundeb, diswyddiad neu ymddiswyddiad gorfodol, rhaid i'r swyddog atebol roi gwybod i ni ar unwaith am y rhesymau dros yr ymadawiad.

55. Rhaid i'r swyddog atebol hefyd roi gwybod i ni ar unwaith am ymddiswyddiad neu ddiswyddiad oherwydd anghytundeb, diswyddiad neu ymddiswyddiad gorfodol aelod o'r uwch dîm gweithredol. Caiff aelod o'r uwch dîm gweithredol ei ddiffinio yn unol â diffiniad FRS 102 ar gyfer 'personél rheoli allweddol'; hynny yw, "y bobl hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb dros gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r endid, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan gynnwys unrhyw gyfarwyddwr (boed yn weithredol neu fel arall) yr endid hwnnw". Mae hyn yn gyson â'r dull y mae'n ofynnol i'r sefydliad ei fabwysiadu wrth nodi eu huwch dîm gweithredol ar gyfer datganiadau ariannol dan FE/HE Statement of Recommended Practice.

*Sicrhau darpariaeth addysg o ansawdd da*

56. Gallai ystod o ffactorau beri risg y daw ansawdd addysg yn annigonol. Felly, rydym yn monitro ystod o ddangosyddion trwy gydol y flwyddyn i lunio ein barn ynghylch a yw'n debygol y daw ansawdd addysg yn annigonol. Gallai'r broses hon lywio adolygiadau sicrhau ansawdd allanol a byddai'n cael ei llywio gan adolygiadau tebyg. Mae ein gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg yn amlinellu sut y byddwn yn pennu'r risg y bydd darpariaeth yn dod yn annigonol, neu'n debygol o ddod yn annigonol. Fel y nodir uchod, rhaid trin achosion sy'n rhoi rheswm i gredu bod ansawdd darpariaeth yn annigonol neu'n debygol o ddod yn annigonol, fel digwyddiadau hysbysadwy.

57. Mae gan Medr fuddiant rheoleiddiol clir i sicrhau bod y Sefydliad sy'n cael cyllid cyhoeddus yn darparu gwerth am arian ac yn defnyddio'r cyllid hwnnw mewn modd cyfrifol, fel y disgrifir yn y ddogfen hon. Mewn achosion lle mae'r ansawdd yn annigonol a lle'r ydym hefyd wedi nodi bod ansawdd yn debygol o ddod yn annigonol, byddwn yn disgwyl i'r Sefydliad gymryd camau unioni digonol i fynd i'r afael â'r problemau. Cyn rhoi ymyrraeth statudol ar waith, byddwn yn cysylltu â'r Sefydliad yn anffurfiol neu'n ffurfiol.

*Monitro cwynion*

58. Rhaid i'r Sefydliad fod â phroses gadarn ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion a wneir gan fyfyrwyr, staff a thrydydd partïon. Rhaid darparu adroddiad cwynion i gyrff llywodraethu o leiaf bob blwyddyn, sy'n rhoi sicrwydd i'r corff llywodraethu bod cwynion yn cael eu trin yn briodol.

*Cydymffurfio â'r Concordat Uniondeb Ymchwil*

59. Mae Medr yn un o lofnodwyr y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil, ynghyd ag Universities UK, y tri chorff arall sy'n cyllido addysg uwch yn y DU, Ymchwil ac Arloesi y DU, yr Athrofa Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Wellcome Trust. Rydym yn disgwyl i bob prifysgol yng Nghymru gydymffurfio â thelerau'r Concordat. Gofynnir i'r Sefydliad gadarnhau ei fod yn cydymffurfio â'r Concordat yn y Datganiadau Sicrwydd Blynyddol.

60. Bydd Medr yn ei gwneud yn ofynnol i brifysgolion yng Nghymru: ddarparu copi o'u polisïau ar adolygu a chymeradwyo moesegol a dulliau ar gyfer adrodd am honiadau o gamymddwyn; cyfeirio at yr ardal o wefan y brifysgol lle ceir gwybodaeth am uniondeb ymchwil; darparu gwybodaeth am ymchwiliadau i gamymddwyn mewn ymchwil i gyllidwyr ymchwil ac i gyrff proffesiynol a/neu statudol, fel sy'n ofynnol gan eu hamodau grant a rhwymedigaethau cyfreithiol, proffesiynol a statudol eraill.

61. Medr yw un o lofnodwyr y Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr. Mae hefyd yn aelod o Grŵp Strategaeth y Concordat (GSC), sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gyrff ariannu, sefydliadau addysg uwch, a sefydliadau a chymdeithasau eraill y tu mewn a'r tu allan i addysg uwch. Mae GSC yn gyfrifol am hybu a gweithredu egwyddorion y Concordat Datblygu Ymchwilwyr ledled y DU. Ein disgwyliad pendant yw y dylai pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru lofnodi'r Concordat a mabwysiadu ei egwyddorion, ei safonau a'i arfer da. Gofynnir i'r Sefydliad gadarnhau ei statws fel llofnodwr a manylion am sut mae'n bodloni ei gyfrifoldebau fel llofnodwr, a'i resymau dros beidio â llofnodi'r Concordat os nad yw'n llofnodwr, yn y Datganiadau Sicrwydd Blynyddol.

62. Os yw'r Sefydliad wedi llofnodi'r Concordat, dylai fod yn rhoi cyfrifoldebau llofnodwyr ar waith, fel y'u nodir yn y Concordat. Mae'r Concordat yn offeryn gwelliant parhaus sy'n eiddo i'r sector, a gallai'r cyfrifoldebau hyn newid dros amser wrth i'r Concordat gael ei adolygu. Bydd Medr yn monitro sut mae'r Sefydliad yn rhoi cyfrifoldebau llofnodwyr y Concordat ar waith trwy'r Datganiadau Sicrwydd Blynyddol, lle dylai'r sefydliad gynnwys ei Gynllun Gweithredu Concordat blynyddol a'i adroddiad blynyddol i'w gorff llywodraethu.

*Cydymffurfio â deddfwriaeth y DU sy'n berthnasol i gyllid Medr*

63. Rhaid i'r Sefydliad sicrhau bod ei ddefnydd o gyllid yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

*Tâl cydnabyddiaeth*

64. Rhaid i'r Sefydliad ddilyn polisi tâl y sector cyhoeddus trwy ystyried tegwch, yr angen i recriwtio, ysgogi a chadw staff, a fforddiadwyedd o fewn y terfynau a bennir gan y setliad grant.

65. Rhaid i'r Sefydliad gydymffurfio â'r holl ddatgeliadau gofynnol yn gysylltiedig â chyflog ei staff â chyflog uwch yn ei ddatganiadau ariannol archwiliedig, fel y nodir yng Nghyfarwyddyd Cyfrifon cyfredol Medr i sefydliadau addysg, safonau cyfrifyddu ariannol perthnasol, a gofynion cyfreithiol.

66. Dylai'r sefydliad ddilyn arfer da cyhoeddedig o ran cyflogau, gan gynnwys yr egwyddorion a nodir yng Nghod Cyflogau Staff Uwch CUC (2021).

*Defnydd priodol o gyllid cyhoeddus*

67. Ni cheir defnyddio cyllid Medr i roi cymhorthdal ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn rhai cyhoeddus.

68. Rhaid i'r Sefydliad ddefnyddio cyllid Medr ar gyfer y gweithgareddau sy'n gymwys i gael cyllid yn unig, fel y nodir yn isadrannau 65(2)(a), (b) a (c) Deddf 1992. Mae'r amod hwn hefyd yn berthnasol pan fydd Sefydliad yn trosglwyddo rhan o'i grant Sefydliad i endid sydd ar wahân yn gyfreithiol i ddarparu gweithgaredd sy'n gymwys i gael cyllid. Mae hynny'n cynnwys trosglwyddo grant i golegau yn y sector addysg bellach, a phan gaiff darpariaeth ei chyflwyno trwy drefniadau is-gontract neu drwy is-gwmni.

69. Os caiff cyllid a ddarparwyd gan Medr ei drosglwyddo i endid sydd ar wahân yn gyfreithiol:

   a. Bydd y Sefydliad yn gyfrifol am y cyllid o hyd a rhaid iddo gadw goruchwyliaeth ddigonol er mwyn gallu sicrhau y caiff y cyllid ei ddefnyddio at ddibenion sy'n gymwys dan y Ddeddf. Rhaid i'r oruchwyliaeth hon gynnwys atebolrwydd ariannol a sicrhau ansawdd, ymhlith meysydd eraill. Rhaid i'r ddau barti gytuno ar ddatganiad ysgrifenedig o'r trefniadau. Rhaid i'r datganiad hwn sicrhau nad yw'r gadwyn atebolrwydd ar gyfer defnyddio cyllid Medr yn cael ei thorri, a bod rhannau perthnasol y Telerau ac Amodau Grant hyn yn berthnasol i ddefnyddiwr terfynol y cyllid; ac
   b. Mae hyn yn berthnasol heblaw mewn achosion lle mae'r corff y mae'r Sefydliad yn trosglwyddo cyllid iddo hefyd yn Sefydliad a ariennir yng Nghymru. Yn yr achosion hyn, fel y nodir yn Adran 65(3A) Deddf 1992, rhaid i'r Sefydliad gael caniatâd gennym ni cyn trosglwyddo cyllid Medr i'r Sefydliad cysylltiedig. Os bydd Medr yn rhoi caniatâd i drosglwyddo cyllid, bydd Medr yn rhoi gwybod i bob parti, gan ddatgan pa barti fydd yn cael ei ddwyn yn atebol am y cyllid.

70. Rhaid i'r Sefydliad ddefnyddio unrhyw gyllid y mae Medr wedi'i glustnodi neu ei ddarparu i ddibenion refeniw neu gyfalaf penodol i'r dibenion hynny'n unig.

71. Os caiff unrhyw gyllid gan Medr a glustnodwyd neu a ddarparwyd ar gyfer dibenion penodol ei ddefnyddio i ddibenion eraill, rhaid i'r Sefydliad roi gwybod i Medr ar unwaith am y defnydd hwnnw.

*Amgylchiadau lle byddai angen ad-dalu cyllid cyhoeddus*

72. Dan adran 65(4) Deddf 1992, gall Medr ei gwneud yn ofynnol i'r Sefydliad ad-dalu'r cyllid a gafwyd gan Medr, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, os na fydd y Sefydliad yn cydymffurfio ag unrhyw delerau ac amodau a osodwyd gan Medr yn gysylltiedig â thalu cyllid.

73. Gallwn ei gwneud yn ofynnol i Sefydliad ad-dalu cyllid os yw wedi cael gormod o gyllid.

74. Mae gan Medr gyfrifoldeb i sicrhau y caiff ansawdd y ddarpariaeth a ariennir ganddo ei asesu, ac mae ganddo'r hawl i osod cosbau ariannol a/neu dynnu cyllid yn ôl gan Sefydliad os yw Medr o'r farn bod ansawdd y ddarpariaeth yn annigonol.

75. Mae gan Medr yr hawl hefyd i fynnu bod y Sefydliad yn talu llog ar ddau y cant uwchlaw cyfradd sylfaenol Banc Lloegr, yn gysylltiedig ag unrhyw gyfnod y mae swm sy'n ddyledus i Medr dan y Telerau ac Amodau Grant hyn, neu unrhyw amod arall, yn parhau heb ei dalu.

76. Daw gwerth buddiant y Trysorlys yn y Sefydliad (paragraff 89 i 91) yn ad-daladwy ar unwaith os bydd y sefydliad yn mynd yn fethdalwr, gan gynnwys ymddatod neu fynd i ddwylo gweinyddwyr, neu os yw'n diddymu neu'n trosglwyddo ei ymrwymiad i ryw gorff arall, neu os yw'n profi unrhyw ddigwyddiad cyfatebol.

*Gofyniad i danysgrifio i gyrff eraill*

77. Dan Ddeddf 1992 a Deddf Addysg Uwch 2004, mae'n ofynnol i'r Sefydliad danysgrifio i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, yn y drefn honno.

78. Dylai'r Sefydliad gael gwybod am y canllawiau diweddaraf gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, neu unrhyw gyrff olynol sy'n cyflawni'r rolau hynny.

79. Y Sefydliad sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

*Rheoli'r ystâd yn ddoeth*

80. Dylid cynnal arolwg rheolaidd o gyflwr yr ystadau a rhoi ystyriaeth i hynny yn y strategaeth ystadau.

81. Rhaid i'r Sefydliad roi strategaeth a chynllun rheoli carbon ar waith. Dylid monitro cynnydd yn erbyn y strategaeth a'r cynllun drwy'r strwythur llywodraethu.

82. Dylai'r Sefydliad fod yn gweithio tuag at gyflawni sero net.

83. Rhaid i'r Sefydliad barhau i adolygu'r tir a'r adeiladau a ddelir ganddo, gyda'r amcan o resymoli a gwaredu'r rhai y mae'r Sefydliad o'r farn nad oes eu hangen mwyach.

84. Dylai prosesau gael eu rhoi ar waith i sicrhau y caiff gofod ei reoli'n effeithiol o fewn y Sefydliad.

*Monitro gwerth y trysorlys a ddelir yn asedau'r Sefydliad*

85. Rhaid i'r Sefydliad gyflwyno datganiad blynyddol i Medr yn manylu ar werth gros a gwerth dibrisiedig buddiant y trysorlys yn asedau'r Sefydliad. Rhaid i'r Sefydliad hefyd fanylu ar y tâl dibrisiant i'r asedau a wnaed o fewn y flwyddyn, yn ogystal â gwerth a natur unrhyw ychwanegiadau neu namau. Bydd Medr yn cyhoeddi atodlen i'r Sefydliad ei ddychwelyd yn flynyddol er mwyn gallu nodi'r elfennau hyn.

86. Rhaid i'r Sefydliad gydymffurfio â gofynion y Comisiwn Elusennau o ran gwaredu tir ac adeiladau elusennol, sy'n cynnwys gofynion yn ymwneud â'r pris gwaredu yn gysylltiedig â gwerth marchnad yr ased.

87. Gan mai dim ond yn ôl disgresiwn Medr y caiff buddiant y Trysorlys ei ad-dalu wrth waredu ased (a fyddai'n cael ei ystyried yn anarferol) neu dan yr amgylchiadau eithriadol o fynd yn fethdalwr, nid oes angen ei ddatgelu fel atebolrwydd dibynnol yng nghyfrifon y Sefydliad.

*Gwaredu asedau y mae buddiant y trysorlys ynddynt*

88. Mae Paragraff 7 Dogfen Fframwaith CNLC: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ddiogelu'r asedau a ariennir drwy fuddiant y trysorlys yn y Sefydliad. Medr sydd bellach yn gyfrifol am hyn.

89. Rhaid i'r Sefydliad ofyn am ganiatâd ymlaen llaw gan Medr cyn gwaredu asedau (yn llawn neu'n rhannol) y mae buddiant trysorlys ynddynt ac y mae eu prisiant yn fwy na gwerth marchnad o £25,000.

90. Rhaid i'r Sefydliad hefyd wneud cais am ganiatâd gan Medr os yw'n bwriadu rhoi'r gorau i ddefnyddio ased sy'n cynnwys buddiant y trysorlys i'r diben y bwriadwyd ar ei gyfer.

91. Wrth roi caniatâd, bydd Medr yn penderfynu i ba raddau y mae'r buddsoddiad cyhoeddus yn ad-daladwy.

92. Os bydd eiddo sy'n cynnwys buddiant y trysorlys yn cael ei brydlesu i'w ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau heblaw llety gwyliau neu'r rhai sy'n gymwys i gael cyllid gan Medr dan adran 65(2) Deddf 1992, rhaid talu rhent neu gyfran briodol ohono i Medr (ar ôl didynnu unrhyw rent tir neu daliadau, costau gweinyddol ac unrhyw wariant arall sydd ei angen i gadw'r eiddo mewn cyflwr sy'n denu'r rhent hwnnw).

93. Bydd elw yn sgil gwerthu asedau'r Trysorlys yn parhau i fod yn eiddo i'r Trysorlys ac felly'n parhau i fod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r ddogfen hon.

94. Gallai Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â Medr, bennu amodau lle na fyddent yn cymhwyso'r gofynion dan amgylchiadau lle byddai cyllid cyhoeddus yn daladwy.

*Ymrwymiadau ariannol*

95. Dan adran 69(4) Deddf 1992, mae gan Medr ddyletswydd i ddiogelu buddiant y trysorlys yn natblygiad unrhyw dir, adeilad neu ased arall:

   i. a gaffaelwyd gan y Sefydliad gan ddefnyddio cyllid cyhoeddus; a
   ii. bod amod ynghlwm wrth y cyllid cyhoeddus sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Sefydliad gael caniatâd y Gweinidog cyn codi cyllid cyfalaf gan ddefnyddio'r asedau hynny fel sicrwydd.

96. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Sefydliad gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Medr os yw'r Sefydliad yn dymuno caniatáu sicrwydd dros yr ased hwnnw. Wrth geisio cymeradwyaeth debyg gan Medr, rhaid i'r Sefydliad ddangos ei gydymffurfiaeth yn ysgrifenedig.

*Paratoi datganiadau ariannol*

97. Rhaid paratoi datganiadau ariannol ar gyfer y Sefydliad (neu gyfrifon grŵp cyfunol os yw'r Sefydliad yn rhiant-endid) yn unol â'r SORP ('Statement of recommended practice: accounting for further and higher education).

98. Rhaid i'r Sefydliad sicrhau bod copïau o'r datganiadau ariannol cyfunol ar gael i'r cyhoedd mewn modd amserol.

99. Rhaid i Sefydliadau a'u harchwilwyr allanol gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon cyfredol a gyhoeddwyd gan Medr.

100. Rhaid i'r datganiadau ariannol gael eu llofnodi gan y swyddog atebol a chan y Cadeirydd neu aelod arall o'r corff llywodraethu, fel y'i penodir gan y corff llywodraethu hwnnw. Os yw'r Sefydliad yn gwmni, bydd gofynion Deddf Cwmnïau 1985 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cwmnïau 1989) yn berthnasol ar gyfer llofnodwyr y datganiadau ariannol.

101. Rhaid i'r wybodaeth ganlynol gael ei chynnwys yn natganiadau ariannol archwiliedig ac adroddiadau cysylltiedig y Sefydliad:

    a. Rhaid i'r aelodau gadarnhau yn yr adroddiad blynyddol eu bod wedi cynnal asesiad cadarn o'r prif risgiau a'r ansicrwydd perthnasol y mae'r Sefydliad yn eu hwynebu, gan gynnwys y rhai a fyddai'n bygwth ei fodel busnes, ei berfformiad yn y dyfodol, ei ddiddyledrwydd neu ei hylifedd. Rhaid i'r adroddiad ddisgrifio'r risgiau hynny ac esbonio sut maent yn cael eu rheoli neu eu lliniaru;
    b. Datganiad gan yr aelodau ynghylch a ydynt o'r farn ei bod yn briodol mabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ar ôl ystyried y prif risgiau a'r ansicrwydd perthnasol sy'n bodoli dros gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol;
    c. Disgrifiad o bolisi'r corff llywodraethu ar amrywiaeth ac aelodaeth, gan gynnwys rhywedd; unrhyw amcanion mesuradwy y mae wedi'u gosod ar gyfer rhoi'r polisi ar waith; a chynnydd o ran cyflawni'r amcanion.

102. Efallai y byddwn yn darparu mwy o fanylion a gofynion ychwanegol yn ymwneud â rhai o'r uchod yng nghyfarwyddyd cyfrifon Medr i Sefydliadau, a gyhoeddir mewn cylchlythyr blynyddol.

*Goruchwylio gwaith archwilio*

103. Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod archwilwyr y Sefydliad yn cydymffurfio â'r holl safonau perthnasol ac unrhyw gyfarwyddiadau eraill sy'n cael eu llunio a'u cyhoeddi gan Medr, mewn ymgynghoriad â'r Sefydliad.

*Hawl mynediad Medr ar gyfer ymchwiliadau*

104. Gallai Medr gynnal unrhyw ymchwiliadau y mae o'r farn eu bod yn angenrheidiol. Os bydd yr amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny, gellir didynnu cost ymchwiliadau ychwanegol tebyg, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, o grant refeniw'r Sefydliad.

105. Gallai Medr gynnal adolygiadau sydd wedi'u llunio i wella cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth reoli neu weithredu'r Sefydliad, gan gynnwys astudiaethau gwerth am arian. Gallai Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd gynnal astudiaethau gwerth am arian yn gysylltiedig â defnydd y Sefydliad o adnoddau.

106. Gallai archwilwyr mewnol Llywodraeth Cymru ac/neu Archwilio Cymru ymuno â Medr wrth ymweld â Sefydliadau. Mewn ymweliadau tebyg, bydd archwilwyr Llywodraeth Cymru ac/neu Archwilio Cymru yn ymwneud â'r ffordd y mae Medr yn cyflawni tasgau yn unig, ac ni fyddant eu hunain yn archwilio trefniadau o fewn y Sefydliad.

## Ymgysylltu â sefydliadau a'u cefnogi, a chamau diogelu

107. Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rhaid i Medr fod yn hyderus bod gan y cyrff a ariennir ganddo drefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu digonol ac effeithiol i ddiogelu cyllid cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi, ynghyd â threfniadau i sicrhau gwerth am arian o gyllid cyhoeddus.

### *Camau diogelu*

108. Rydym yn disgwyl i'r Sefydliad ymgysylltu â ni a mynd i'r afael â materion cyn bod angen i ni roi ein datganiad ymyrraeth ar waith.

109. Os na fydd y Sefydliad yn cymryd unrhyw gamau cytûn, bydd Medr yn gofyn am esboniadau ac, os yw'n briodol ac yn gyfiawn, yn rhoi rhybuddion i wella.

110. Os bydd y Sefydliad yn methu mynd i'r afael â'r risgiau a'r materion o hyd, bydd y Sefydliad yn cael gwybod y caiff un neu fwy o gamau diogelu eu rhoi ar waith. Dewis olaf fydd hyn, pan fetho popeth arall, ac mae'n gam na fyddwn yn disgwyl ei gymryd yn aml.

111. Dyma'r ddau gam diogelu sydd ar gael i Medr, y gellid eu defnyddio pe byddai pob ymgais arall i sicrhau cydymffurfiaeth yn aflwyddiannus:

   a. **Ariannol** – trwy adennill cyllid grant neu wrthod y gallu i fanteisio ar gyllid grant yn y dyfodol, gan gynnwys manteisio ar grantiau penodol neu gyllid dewisol. Yn y pen draw, gall Medr dynnu cyllid yn ôl yn gyfan gwbl, os bydd amgylchiadau'n cyfiawnhau camau tebyg; a

   b. **Gwybodaeth** – trwy gyhoeddi ein pryderon am sefydliad, lle mae rhesymau cryf dros wneud hynny a lle bo hynny er budd y cyhoedd neu'r holl fyfyrwyr (myfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr, a chyn-fyfyrwyr, lle bo hynny'n berthnasol).

112. Yn ogystal, gallai Medr:

   a. roi cyngor i'r Swyddfa Fyfyrwyr pan gallai'r Sefydliad fod wedi torri ei rwymedigaethau elusennol; a/neu
   b. roi cyngor i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol lle gallai achos o

wahaniaethu fod wedi digwydd.

## Materion eraill

*Diwygiadau i'r ddogfen hon*

113. Ar ôl ymgynghori â'r Sefydliad a'r cyrff hynny sy'n cynrychioli'r Sefydliad, y mae Medr o'r farn eu bod yn briodol, gallai Medr ddiwygio, dirymu neu ychwanegu at unrhyw rai o'r telerau ac amodau yn y ddogfen hon o bryd i'w gilydd. Gall y Sefydliad ei hun gynnig newidiadau tebyg i Medr.

*Dehongli datganiadau yn y ddogfen hon*

114. Bydd Medr yn datrys cwestiynau yn ymwneud â dehongli unrhyw ddatganiad yn y ddogfen hon ar ôl ymgynghori â'r Sefydliad a'r cyrff hynny sy'n cynrychioli'r Sefydliad, fel yr ystyrir yn briodol gan Medr.

## Llofnod y Swyddog Atebol

115. Rhaid i swyddog atebol (**enw'r Sefydliad**) nodi isod ei fod wedi derbyn a chymeradwyo'r Telerau ac Amodau Cyllid, sy'n amlinellu'r telerau ac amodau ar gyfer talu cyllid gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) i gorff llywodraethu **(enw'r Sefydliad**) o gyllid sydd ar gael gan y Gweinidog Addysg.

Llofnod ……………………………………………………………………………

Dyddiad ……………………………………

## Llofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethu

116. Rhaid i Gadeirydd Corff Llywodraethu (**enw'r Sefydliad**) nodi isod ei fod wedi derbyn a chymeradwyo'r Telerau ac Amodau Cyllid, sy'n amlinellu'r telerau ac amodau ar gyfer talu cyllid gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) i gorff llywodraethu **(enw'r Sefydliad**) o gyllid sydd ar gael gan y Gweinidog Addysg.

Llofnod ……………………………………………………………………………

Dyddiad ……………………………………

## Atodiad A: Geirfa

Yn y Telerau ac Amodau Cyllid hyn, mae’r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

| | |
|---|---|
| **Blwyddyn academaidd** | Y 12 mis o 1 Awst hyd 31 Gorffennaf |
| **Buddiant y Trysorlys** | Y buddiant amodol a ddelir gan Medr yn y Sefydliad, sy’n deillio’n unol â chanllawiau Medr o ddefnyddio cyllid y trysorlys ar ffurf cyllid cyfalaf penodol. Gallai buddiant tebyg greu rhwymedigaeth ar y Sefydliad i ad-dalu grant, neu gydnabod atebolrwydd, dan amgylchiadau eithriadol penodol |
| **Cod Llywodraethu Addysg Uwch** | Y Cod Llywodraethu a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol (www.universitychairs.ac.uk) |
| **Corff llywodraethu** | Cyngor y brifysgol, y bwrdd llywodraethwyr neu gorff arall sy’n gyfrifol am reoli a gweinyddu refeniw ac eiddo’r Sefydliad, yn y pen draw, ynghyd â chynnal ei faterion |
| **Cyfnod cyfrifyddu** | Y cyfnod a gwmpesir gan ddatganiadau ariannol archwiliedig y Sefydliad, sef y 12 mis o 1 Awst hyd 31 Gorffennaf, fel arfer |
| **Cyllid y Trysorlys** | Grant neu gymorth grant gan y llywodraeth. Yng nghyd-destun y ddogfen hon, mae’r diffiniad o’r cyllid hwn yn cynnwys grant neu gymorth grant a delir gan Medr a’i gyrff cyllido rhagflaenol, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, y Cynghorau Ymchwil a’r Swyddfa Gymreig i gyn-golegau gwirfoddol a grantiau uniongyrchol |
| **Deddf 1992** | Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 |
| **FRS** | Safon Adrodd Ariannol |
| **Grŵp** | Fel y’i diffinnir dan a.1159(1) Deddf Cwmnïau 2006. Nid yw felly’n gyfeiriad at grŵp endid budd cyhoeddus |
| **Gweinidog** | Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ac Addysg Drydyddol |
| **HESA** | Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch |
| **Mis** | Mis calendr |
| **Sefydliad** | Sefydliad addysg uwch neu sefydliad addysg bellach |
| **SORP** | *Statement of Recommended Practice: Accounting for Further and Higher Education* (www.fehesorp.ac.uk) |
| **Swyddog atebol** | Pennaeth Sefydliad sy’n gyfrifol ac yn atebol i Medr (ac i Senedd Cymru yn y pen draw) am sicrhau bod y Sefydliad |

| | |
|---|---|
| | yn defnyddio cyllid Medr mewn ffyrdd sy'n gyson â'r dibenion y rhoddwyd y cyllid hwnnw ar eu cyfer, ac yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrthynt. Mae'r rhain yn cynnwys yr amodau a nodir yn Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 |
| **VFM** | Gwerth am arian |
| **Y Comisiwn** | Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) |
| **Y sefydliad** | (enw'r Sefydliad) |

Mae cyfeiriadau at **sefyllfa ariannol, datganiadau ariannol, ymrwymiadau ariannol** neu **fenthyciadau'r Sefydliad** yn golygu sefyllfa ariannol, datganiadau ariannol, ymrwymiadau ariannol neu fenthyciadau cyfunol y Sefydliad a'i is-gyrff, fel y'i diffinnir yn Neddf Cwmnïau 1985 ac y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cwmnïau 1989, ac yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**